**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

27 Mehefin 2023

Annwyl Mick

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon, trafodwyd eto'r datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

Roeddem yn cydnabod bod y Bil wedi mynd drwy sawl cyfnod 'ping-pong' yn Senedd y DU a, hyd yma, nid yw Tŷ'r Cyffredin wedi bod yn fodlon derbyn gwelliannau'r Arglwyddi sydd wedi ceisio ychwanegu cymalau newydd at y Bil yn ymwneud â dim atchwelyd o ran safonau amgylcheddol a gweithdrefn uwch ar gyfer arfer pwerau cymal 15.

Pan gyfarfu'r Pwyllgor, roedd Tŷ'r Arglwyddi'n ailystyried gwelliannau Tŷ'r Cyffredin i'r Bil am y trydydd tro. Fe wyddoch, mae'n debyg, na wnaeth yr Aglwyddi fwrw ymlaen â'r gwelliannau.

Rydym yn ymwybodol y bydd y Bil, yn ddarostyngedig i'r cyfnodau olaf yn Senedd y DU, yn cael Cydsyniad Brenhinol ac y bydd yn dod yn Ddeddf yn ystod yr wythnosau nesaf.

Er bod y ddarpariaeth fachlud wreiddiol yng nghymal 1 wedi'i dileu o'r Bil, roedd gennym ni, a'r Senedd yn ehangach, bryderon cyffredinol eraill am oblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd hon. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi trafod problemau posibl yn ymwneud â'r dull o weithredu a sylwedd darpariaethau a ddisodlodd y ddarpariaeth fachlud yng nghymal 1.

Gan hynny, yn dilyn fy llythyr atoch ar 16 Mai 2023 a'ch ymateb ar 2 Mehefin, byddem yn falch o gael y wybodaeth ddiweddaraf gennych am nifer o faterion. Mae ein cwestiynau wedi'u cynnwys yn yr Atodiad sydd ynghlwm.

Os oes modd, hoffem gael ymateb ysgrifenedig erbyn bore dydd Gwener 7 Gorffennaf. Byddai hyn yn caniatáu i ni'ch holi am eich ymatebion pan fyddwch yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ddydd Llun 10 Gorffennaf. Os nad yw hyn yn bosibl, byddem yn ddiolchgar pe baech yn ymateb yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl.  Mae'n debygol y byddwn yn ymdrin â rhai o'r materion hyn beth bynnag yn ystod y sesiwn sydd ar ddod.

Rwy'n ddiolchgar i chi, fel arfer, am barhau i ymgysylltu â ni ynghylch y mater pwysig ac arwyddocaol hwn, ac edrychwn  ymlaen at eich gweld ar 10 Gorffennaf.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Atodlen i'r Bil yn rhestru cyfraith yr UE a ddargedwir sydd i'w dirymu ddiwedd y flwyddyn, a'r pŵer i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir o'r rhestr honno.

Roedd nifer o'r cwestiynau yn ein llythyr atoch ar 16 Mai yn ymwneud â'r Atodlen newydd i'r Bil. Nid oedd Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â Llywodraeth Cymru, meddech, cyn cyflwyno'r gwelliant ar yr Atodlen newydd a'r gwelliant sy'n ychwanegu pŵer newydd i wneud rheoliadau y gall Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU ei arfer i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i rhestru yn yr Atodlen rhag cael ei dirymu. Roedd Llywodraeth Cymru, meddech hefyd, yn gweithio drwy bob un o'r offerynnau a restrir yn yr Atodlen.

Yn ei llythyr at y Pwyllgor ar 16 Mehefin, dywedodd y Gwir Anrhydeddus Kemi Badenoch AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach:

> *"Where devolved governments wish to disapply the revocation of REUL presently listed on the Schedule, they will be able to exercise the preservation power in respect of the relevant REUL within their areas of devolved competence."*

Cwestiwn 1: Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i rhestru yn yr Atodlen newydd?

Cwestiwn 2: A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pŵer newydd i wneud rheoliadau i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i rhestru yn yr Atodlen rhag cael ei dirymu?

Cwestiwn 3: A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch bwriad Gweinidogion y DU i ddefnyddio'r pŵer newydd i wneud rheoliadau i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i rhestru yn yr Atodlen rhag cael ei dirymu, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig?

Caiff Llywodraeth y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig ac nid oes unrhyw ofyniad yn y Bil i Weinidogion y DU ofyn am gydsyniad Llywodraeth Cymru, nac i'w hysbysu nac i ymgynghori â hi. O ganlyniad, mae risg sylweddol y bydd y Senedd nid yn unig yn cael ei hosgoi, ond na fydd ychwaith yn cael gwybod am yr hyn sy'n digwydd i'r gyfraith yng Nghymru

Fe wyddoch fod pwerau cydredol sylweddol yn y Bil o hyd ac y gall Gweinidogion y DU eu defnyddio i wneud darpariaethau mewn meysydd datganoledig. Fe wyddoch hefyd nad yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ofyniad i Lywodraeth y DU geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru, nac i hysbysu nac ymgynghori â Gweinidogion Cymru, cyn y bydd yn cynnig gwneud neu'n gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig.

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> *"The concurrent nature of the powers is not intended to influence decision making in devolved governments. Rather, it is intended to reduce additional resource pressure by enabling the UK Government to legislate on behalf of a devolved government where they do not intend to take a different position. Furthermore, we remain committed to continuing discussions with the devolved governments over the exercise of concurrent powers in the Bill. (...)*
>
> *"It will be important to work with the devolved governments in order to understand their plans for REUL reform and how best to work jointly on the use of concurrent powers and other measures within the Bill."*

Cwestiwn 4: O dan ba amgylchiadau y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau o dan y Bil mewn meysydd datganoledig?

Cwestiwn 5: Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal a/neu sy'n cael eu cynnal â Llywodraeth y DU ynghylch arfer y pwerau cydredol yn y Bil?

Cwestiwn 6: A yw'r trafodaethau â Llywodraeth y DU wedi cynnwys ceisio ymrwymiadau ynghylch telerau a fydd ynghlwm wrth arfer y pwerau cydamserol, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan pan nad yw'n bwriadu cymryd safbwynt gwahanol?

Cwestiwn 7: Pa gytundebau ac ymrwymiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio a'u rhoi ar waith o ran pryd a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybod pryd y bydd Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud rheoliadau mewn maes datganoledig?

Cwestiwn 8: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhannu gwybodaeth berthnasol â'r Senedd mewn modd amserol am arfer (neu am ei bwriad i arfer) y pwerau hyn?

<u>Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil.</u>

Nid yw'r pwerau yn y Bil i ailddatgan, atgynhyrchu, dirymu, disodli neu ddiweddaru cyfraith tyr UE a ddargedwir wedi newid.

Yn ein llythyr atoch chi ar 16 Mai, gofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio unrhyw bwerau a ddarperir iddi yn y Bil yng nghyd-destun cyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan Senedd, neu a ddatganolwyd, erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Gofynnwyd hefyd a yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau cymal 15 i ddirymu neu ddiwygio meysydd eraill o gyfraith yr UE a ddargedwir cyn diwedd y flwyddyn hon ac, os felly, a yw Llywodraeth Cymru yn cynnal unrhyw drafodaethau yn y cyswllt hwn ac, yn benodol, yng nghyswllt y posibilrwydd y bydd rheoliadau yn y dyfodol yn debygol o gynnwys rheoliadau mewn meysydd datganoledig?

Yn ogystal â hyn, gofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pŵer yng nghymal 20, sy'n cynnwys y pŵer datganedig i ddiwygio'r Bil ei hun.

Fe wyddoch fod y gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ymestyn pwerau canlyniadol, pwerau trosiannol, pwerau dros dro a phwerau arbed i'r Gweinidogion datganoledig perthnasol a chynyddu, drwy hynny, nifer y pwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Cwestiwn 9:A allwch chi ddiweddaru'ch ymatebion i gwestiynau 14, 15 ac 19 yn fy llythyr dyddiedig 16 Mai, a rhoi'ch barn am y pwerau ychwanegol a roddwyd i Weinidogion Cymru.

Sifftio offerynnau statudol negyddol arfaethedig

Mae'r Bil yn cynnwys gweithdrefn sifftio a fydd yn gymwys i reoliadau y mae Gweinidogion Cymru (a Gweinidogion y DU) yn ceisio'u gwneud o dan gymalau penodol drwy'r weithdrefn graffu negyddol.

Yn ôl a ddeallwn, mae'r weithdrefn sifftio yn y Bil yn dyblygu'r hyn sy'n ymddangos yn Neddf 2018 a *Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020* (Deddf 2020). Fe wyddoch mai ni (yn unol â'r Rheolau Sefydlog) yw'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am drafod rheoliadau i'w sifftio o dan Ddeddf 2018 a Deddf 2020.

Er mwyn arfer pwerau Deddf 2018, fe wyddoch fod y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Bumed Senedd wedi ymrwymo i brotocol gyda Llywodraeth Cymru fel ffordd o geisio rheoli'r trefniadau ymarferol sy'n ymwneud â Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau yn y Ddeddf honno.

O ganlyniad i un mater ymarferol o'r fath, cytunodd Llywodraeth Cymru i geisio gosod offerynnau negyddol arfaethedig i'w sifftio ar ddydd Mawrth (ac osgoi gosod offerynnau o'r fath ar ddydd Iau a dydd Gwener) i roi dau gyfle posibl i'r Pwyllgor graffu arnynt mewn cyfarfod pwyllgor.

Cwestiwn 10: Yn amodol ar benderfyniad ffurfiol y byddwn hefyd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o fod yn 'bwyllgor sifftio' pan fydd y pwerau perthnasol yn cael eu harfer o dan y Bil hwn, a fyddech yn cytuno i wneud ymrwymiad tebyg i hwnnw a oedd ar waith yn flaenorol a chytuno y bydd Llywodraeth Cymru unwaith eto yn ceisio gosod unrhyw offerynnau negyddol arfaethedig i'w sifftio ar ddydd Mawrth (ac osgoi eu gosod ar ddydd Iau a dydd Gwener)?

Machlud hawliau sy'n deillio o'r UE, ac egwyddorion cyfraith yr UE

Fe'ch holwyd yn flaenorol am asesiad Llywodraeth Cymru o effaith machlud hawliau sy'n deillio o'r UE ac egwyddorion cyfraith yr UE a ddargedwir, fel goruchafiaeth, a fydd yn digwydd ar 31 Rhagfyr 2023.

Cwestiwn 11: A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ynghylch machlud hawliau a rhwymedigaethau sy'n cael effaith uniongyrchol, gan nodi a yw Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd pwerau yn y Bil yn cael eu defnyddio i adfer

egwyddor goruchafiaeth neu egwyddorion eraill a ddargedwir ac, os felly, pryd y bydd hynny'n digwydd?

Dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir a nodi cyfraith yr UE a ddargedwir

Yn eich ymateb i'n hadroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil, dywedasoch fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod dangosfwrdd Llywodraeth y DU yn adlewyrchu hyd a lled cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ddatganoledig ac a gedwir yn ôl, pan fo pob darn o ddeddfwriaeth wedi ei nodi'n awdurdodol a bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhannu ei rhestr ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru gyda'n Pwyllgor a chyda Llywodraeth y DU cyn gynted â phosibl.

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> *"The devolved governments remain responsible for identifying REUL within their respective areas of devolved governments…*
>
> *…we recognise the importance of identifying the split of reserved and devolved REUL to ensure that we have a consistent understanding across the UK Government and devolved governments. The UK Government is committed to working with the devolved governments as we update the dashboard."*

**Cwestiwn 12:** A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i nodi cyfraith yr EU a ddargedwir yng Nghymru?

**Cwestiwn 13:** A allwch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn awr wedi gofyn i Lywodraeth y DU ychwanegu rhestr Llywodraeth Cymru o gyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru at y dangosfwrdd?

**Cwestiwn 14:** A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal (neu yn eu cynnal) gyda Llywodraeth y DU ynghylch nodi'r rhaniad rhwng cyfraith y DU sy'n ddatganoledig ac a gedwir yn ôl?

Diwygio cyfraith yr UE a Ddargedwir a Fframweithiau Cyffredin

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> *"The UK Government and the devolved governments agree where Common Frameworks are operating that they are the right mechanism for discussing REUL reform in the areas that they cover. The Government will continue to work closely with the devolved governments to manage intra-UK divergence through these existing structures."*

**Cwestiwn 15:** Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y modd mae (neu y bydd) y strwythurau presennol i reoli Fframweithiau Cyffredin y DU gyfan yn cael eu defnyddio i drafod y broses o ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir?